Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Hafodwenog
# Trelech
# Caerfyrddin
# SA33 6RU

## Dyddiad yr arolygiad:  Chwefror 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn agYsgol Gynradd Hafodwenog

Lleolir Ysgol Gynradd Hafodwenog ym mhentref Trelech yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae 42 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 5 oed meithrin amser llawn. Trefnir y disgyblion yn ddau ddosbarth, un ar gyfer y cyfnod sylfaen a'r llall ar gyfer cyfnod allweddol 2. Mae 37% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Nid oes un disgybl yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ac ychydig iawn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gan bennaeth ysgol gyfagos cyfrifoldeb dros yr ysgol ers Medi 2018. Mae'n treulio dau ddiwrnod yr wythnos yn yr ysgol ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae ethos cymunedol cryf yn bodoli yn yr ysgol ac mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos balchder tuag at eu cymuned leol.  Maent yn ymweld â'u cymuned yn gyson ac yn croesawu ymwelwyr yn rheolaidd i'r ysgol i gyfoethogi eu dysgu.

Mae'r staff yn rhoi pwyslais cadarn ar greu amgylchedd ddysgu ddiogel i'w disgyblion, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles.  Fodd bynnag, nid oes gan athrawon bob amser ddisgwyliadau digon uchel o ran safonau na dyhead academaidd disgyblion.  O ganlyniad, nid yw'r lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth newydd wedi sefydlu ethos o gydweithio llwyddiannus ymhlith y staff.  Mae wedi dechrau gwneud gwelliannau buddiol i agweddau o'r ddarpariaeth a safonau disgyblion.  Mae'r arweinwyr yn adnabod cryfderau'r ysgol a llawer o'r meysydd ar gyfer gwelliant.  Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau monitro bob amser yn ddigon trylwyr i adnabod nac i fynd i'r afael â materion pwysig fel y diffyg her yn yr addysgu.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Gwella gweithdrefnau monitro a chynlluniau gwella'r ysgol i sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n gadarn ar godi safonau

A2 Codi safonau cyfathrebu Cymraeg y disgyblion

A3 Sicrhau bod yr addysgu'n darparu her briodol i'r holl ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu a datblygu'n ddysgwyr annibynnol ac uchelgeisiol

A4 Sicrhau bod athrawon yn darparu cwricwlwm sy'n gytbwys ac yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ym mhob maes dysgu

A5 Cryfhau rôl y llywodraethwyr wrth fonitro ansawdd y ddarpariaeth a safonau i'w galluogi i herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Ar fynediad i’r dosbarth meithrin, mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau llythrennedd a rhifedd sy’n briodol neu’n uwch nag a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud trwy’r ysgol, mae’r mwyafrif yn gwneud cynnydd addas o’u mannau cychwyn. Er hyn, nid yw’r disgyblion sy’n fwy abl bob amser yn gwneud digon o gynnydd ac mae ychydig o ddisgyblion yn tangyflawni.

Mae medrau llafar disgyblion yn datblygu’n gynnar. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn eglur, gan ddefnyddio geiriau, ymadroddion a brawddegau syml gydag ystod gynyddol o eirfa. Maent yn trafod eu gwaith yn frwdfrydig gydag oedolion ac yn dangos brwdfrydedd wrth ddisgrifio eu hymweliad â fferm gyfagos. Ar y cyfan, mae rhan fwyaf yn gwrando’n effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau gwrando a siarad pwrpasol. Maent yn mynegi eu hunain yn gynyddol gywir a hyderus yn y Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, lleiafrif sy’n defnyddio geirfa sy’n berthnasol i bwnc penodol ac mae yna dueddiad i lawer o’r disgyblion ddefnyddio geiriau Saesneg wrth gyfathrebu yn y Gymraeg.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu’n addas i’w hoed a’u gallu. Mae’r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a synau ac maent yn dechrau creu geiriau’n hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf yn datblygu i fod yn ddarllenwyr pwrpasol ac yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder. Trwy gydol cyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf yn datblygu’n ddarllenwyr cymedrol yn y Gymraeg a Saesneg. Mae llawer ohonynt yn defnyddio eu medrau darllen yn hyderus i drefnu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol wrth olrhain hanes bywyd Thomas Edison, er enghraifft. Er hyn, dim ond ychydig o’r disgyblion hŷn sy’n dangos mwynhad wrth ddarllen ac yn ymhelaethu wrth drafod eu hoff lyfrau.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu’n bwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn datblygu eu medrau ysgrifennu’n briodol mewn ystod gyfyng o wahanol ffurfiau. Maent yn ymestyn eu brawddegau gan ddefnyddio geiriau cysylltu sylfaenol ac yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir. Fodd bynnag, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn rhwystro gallu mwyafrif y disgyblion i ysgrifennu’n estynedig ac i gyflawni cystal ag y gallent. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn Blwyddyn 6, mae’r mwyafrif yn ysgrifennu’n llwyddiannus mewn ychydig o ffurfiau wrth iddynt sgriptio stori Priodas Nantgwrtheyrn, er enghraifft. Maent yn atalnodi’n addas ac mae eu sillafu yn y ddwy iaith yn datblygu’n bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw’r disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu estynedig annibynnol yn ddigon aml ym meysydd eraill y cwricwlwm. Mae safon cyflwyniad gwaith y disgyblion yn amrywio gormod ar draws yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau rhifedd penodol. Yn y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf yn adnabod, trefnu a defnyddio rhif yn briodol yn eu gweithgareddau ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn amcangyfrif hyd llwybr, ei fesur yn ansafonol gyda chordyn ac yna ei fesur eto gan ddefnyddio mesuriadau safonol yn hyderus. Mae llawer o’r disgyblion hŷn yn casglu

data am eu hoff fwydydd parti a'i arddangos ar ffurf graff bar. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o werth lle. Maent yn cyflwyno gwaith mathemateg ar lefel sy'n unol â'u hoed a'u gallu. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn ysgrifennu a thrin rhifau hyd at chwe digid yn llwyddiannus ac yn defnyddio nifer o strategaethau pen yn hyderus wrth luosi a rhannu rhifau cyfain a degolion. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau rhif yn hyderus i resymu, casglu, cofnodi a dadansoddi data. Fodd bynnag, prin yw eu defnydd o'u medrau rhifedd mewn pynciau amrywiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod gyfyng o fedrau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn addas ar draws y ddau gyfnod allweddol. Maent yn defnyddio llechen electronig yn annibynnol wrth dynnu llun a recordio lleisiau wrth iddynt actio rhan o chwedl Branwen, er enghraifft. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau prosesu geiriau yn hyderus i chwilio am wybodaeth am arweinwyr yr Ail Ryfel Byd a chreu cyflwyniadau aml gyfrwng amdanynt. Fodd bynnag, cyfyng yw eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut i fewnbynnu data ar daenlenni electronig a chronfeydd data at ystod o ddibenion. Mae llawer yn ymwybodol o bwysigrwydd diogelwch ar y rhyngrwyd a'r angen i gadw cyfrineiriau yn ddiogel.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol. Maent yn teimlo'n hapus a diogel yno, ac maent yn gwerthfawrogi bod yr amgylchedd yn un gofalgar a chyfeillgar. Pan fo angen, mae'r disgyblion yn hyderus bod athrawon yn ymateb yn brydlon ac yn briodol i'w pryderon. Mae'r disgyblion hŷn yn ofalgar tuag at ddisgyblion y cyfnod sylfaen wrth iddynt eu cynorthwyo amser cinio ac wrth ddewis llyfrau yn wythnosol o lyfrgell yr ysgol. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwrtais tuag at y staff ac at ei gilydd.

Yn y cyfnod sylfaen, mae gan ran fwyaf y disgyblion agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith. Maent yn frwdfrydig ac yn dyfalbarhau â'u tasgau yn ddiwyd. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r ffordd y maent yn defnyddio deunyddiau gwahanol i adeiladu pont gan ddilyn cyfarwyddiadau'n ofalus. Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu dyfalbarhad a gwydnwch yn bwrpasol a defnyddiant y strategaeth 'gofyn i ffrind a phartner cyn yr athrawes' i'w cynorthwyo'n hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn cadw ar dasg am gyfnodau addas ac, ar y cyfan, maent yn ymddwyn yn dda. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gweithio'n synhwyrol gyda phartner ac mewn grwpiau bychain wrth greu ffilm sgrin werdd i rannu teimladau'r Iddewon yn ystod yr Ail Ryfel Byd, er enghraifft. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn ei chael yn anodd ymddwyn yn briodol yn gyson ac mae hyn yn amharu ar waith y disgyblion eraill ar adegau.

Mae llawer o ddisgyblion wedi dechrau cyfrannu'n effeithiol wrth gynnig syniadau diddorol am beth yr hoffent ei ddysgu. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen wedi trefnu gyda'r pregethwr lleol eu bod yn ymweld â'r capel a chynnal priodas ffug yno fel rhan o'u gwaith ar arferion crefyddol.

Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu strategaethau addas i ddechrau gwella eu gwaith eu hunain. Er nad yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cymryd cyfrifoldeb rheolaidd am wella'u gwaith eu hunain, maent yn ddiweddar wedi dechrau cyfrannu'n addas i heriau sesiynau'r prynhawn sy'n dechrau datblygu eu medrau annibynnol.

Mae’r holl ddisgyblion, o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 6, yn ymgymryd â rolau cyfrifoldeb yn addas ac yn dechrau cymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Trwy redeg siop gyfnewid, mae’r cyngor eco yn hyrwyddo cynaliadwyedd yn briodol. Maent hefyd, ynghyd â disgyblion y clwb garddio, yn tyfu llysiau yng ngardd yr ysgol a’u coginio ar y safle. Mae aelodau’r cyngor eco yn hybu bwyta’n iach yn effeithiol ac yn annog holl ddisgyblion yr ysgol i wneud penderfyniadau doeth wrth ddewis eu bwyd. Mae gan lawer o’r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut mae ymarfer y corff yn rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu ffitrwydd, iechyd a lles corfforol. Mae aelodau’r cyngor ysgol yn dechrau gwrando ar syniadau eu cyfoedion. Yn ddiweddar, maent wedi codi ymwybyddiaeth y gymuned gyfan o beryglon afiechydon y galon ac wedi chwarae rhan flaenllaw wrth godi arian i brynu deffibiliwr cymunedol. Maent hefyd wedi cyflwyno offer i’w ddefnyddio ar fuarth yr ysgol i alluogi’r holl ddisgyblion i ymarfer eu medrau ymarferol yn ystod amser egwyl.

Mae llawer o’r disgyblion yn datblygu’n ddinasyddion moesol a chydwybodol, gan drefnu a gweini cinio misol yn yr ysgol i’w cymdogion o’r gymuned. Mae llysgenhadon chwaraeon yn cynnal sesiynau gemau corfforol gyda phlant cylch meithrin y pentref ac mae’r ymweliadau aml i gartref yr henoed gan lawer o ddisgyblion yn cryfhau eu dealltwriaeth o faterion cymdeithasol ac anghenion pobl eraill yn dda.

Yn ddiweddar, mae canran gyfartalog presenoldeb yr ysgol wedi ei gosod yn uwch nag ysgolion tebyg. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon yn y bore.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae’r athrawon yn cynllunio themâu diddorol sy’n hybu’r dysgu ac, ar y cyfan, yn ategu at wybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn gadarn. Mae’r athrawon yn darparu amrywiaeth addas o brofiadau ysgogol i’r disgyblion, fel ymweliad athro o’r ysgol Gymraeg ym Mhatagonia i siarad am ei fywyd a’i waith yn yr Ariannin, er enghraifft. Mae hyn yn cyfoethogi’r dysgu yn effeithiol. Mae athrawon yn dechrau ystyried syniadau disgyblion wrth gynllunio heriau priodol ar eu cyfer. O ganlyniad, yn ddiweddar, mae’r athrawon wedi addasu elfennau o’u cynllunio yn bwrpasol i ddilyn trywydd a syniadau’r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi gwreiddio.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu’n llwyddiannus. Mae’r athrawon yn darparu gweithgareddau ffocws a pharhaus diddorol i’r disgyblion, sy’n cynnwys cyfleoedd buddiol iddynt chwarae rôl, fel gwesteion ym mhriodas Branwen, er enghraifft. Mae’r athrawon yn gwneud defnydd creadigol o’r ardaloedd allanol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw’r cyfle maent yn ei roi i’r disgyblion, o oed cynnar, i goginio cacen yn y gegin fwd a chreu patrymau allan o frigau a dail.

Mae’r staff wedi dechrau addasu eu cynllunio er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno’r cwricwlwm newydd i Gymru. Yn ddiweddar, maent wedi cyflwyno sesiynau ‘ditectif dysgu’ yng nghyfnod allweddol 2, i annog disgyblion i gydweithio mewn grwpiau bach ac i ddarganfod ac archwilio pynciau amrywiol. Enghraifft dda o hyn yw’r gweithgaredd i gymharu cost hir dymor defnyddio tywelion papur yn hytrach nag archebu peiriant sychu dwylo. Mae’r athrawon yn dechrau cynllunio ar gyfer cyflwyno’r fframwaith cymhwysedd digidol. Maent yn darparu cyfleoedd addas i alluogi’r disgyblion i ddefnyddio’u medrau TGCh yn briodol mewn cyd-destunau

amrywiol fel creu cyflwyniadau ar hanes a llwyddiannau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau hir dymor bob amser yn nodi'n ddigon clir sut mae'r profiadau dysgu mewn gwyddoniaeth ac addysg grefyddol yn adeiladu ar fedrau, gwybodaeth bresennol a dealltwriaeth disgyblion ar draws yr ysgol. Cyfyng hefyd yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ac i ddefnyddio eu rhifedd yn gyson mewn pynciau amrywiol.

Mae arferion gorau'r addysgu yn seiliedig ar athrawon a staff cymorth yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu profiadau dysgu diddorol yn rheolaidd i'r disgyblion. Mae'r staff, mewn hanner y gwersi yn atgoffa'r disgyblion yn effeithiol am eu dysgu blaenorol ac yn cyflwyno amcanion dysgu a chyfarwyddiadau yn glir iddynt. Maent yn holi ystod eang o gwestiynau sy'n helpu ymestyn dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgwyliadau'r athrawon o ran yr ymddygiad sy'n dderbyniol gan ddisgyblion yn ddigon uchel. Mae hyn yn amharu ar allu llawer o ddisgyblion i gwblhau eu tasgau. Mae disgwyliadau'r athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn anghyson ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn ddigon heriol, yn arbennig ar gyfer y disgyblion sy'n fwy abl.

Mae athrawon yn rhoi adborth llafar priodol i ddisgyblion am ansawdd eu gwaith. Fodd bynnag, mae'r sylwadau ysgrifenedig yn amrywio gormod ac nid ydynt bob amser yn cynnig y camau nesaf yn ddigon eglur. Gwneir defnydd cyson o'r meini prawf llwyddiant i gynorthwyo'r disgyblion i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill yn rheolaidd.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddysgu am eu hardal, hanes a diwylliant Cymru trwy ystod addas o ymweliadau addysgol a chroesawu ymwelwyr i'r ysgol. Mae enghreifftiau da yn cynnwys ymweld â'r ardd fotaneg a gwersyll yr Urdd yn Llangrannog. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn cefnogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd addas wrth gaffael yr iaith, gan roi'r 'Siarter Iaith' ar waith yn briodol. Mae'r staff yn defnyddio'r 'Criw Cymraeg' yn bwrpasol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg i'w cyfoedion trwy wneud cyflwyniadau rheolaidd iddynt yn y gwasanaethau. Yn ddiweddar, mae staff yr ysgol yn annog y disgyblion i ddefnyddio'r iaith yn fwy rheolaidd drwy eu gwobrwyo â phwyntiau dosbarth. Fodd bynnag, nid oes cysondeb yn y ffordd y mae staff yn cywiro iaith lafar disgyblion yn y Gymraeg, o fewn gwersi ac ar adegau eraill.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, gynhwysol a chartrefol. Mae'r staff yn creu ymdeimlad gofalgar sy'n cael ei adlewyrchu yn lles da'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau pwrpasol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Yn ddiweddar, mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o hyn yn fwy cyson er mwyn gosod targedau bwriadus ar gyfer pob un o'r disgyblion. Mae'r staff yn rhannu'r targedau gyda rhieni yn rheolaidd mewn cyfarfodydd cyswllt rheolaidd. Mae'r athrawon a'r staff cymorth yn cyfrannu'n effeithiol at gefnogi disgyblion unigol ac yn gweithredu rhaglenni ymyrraeth yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at godi safonau a datblygu hyder disgyblion. Mae'r ysgol wedi adnabod yr angen i dargedu grwpiau o ddisgyblion eraill, sef y rheini sy'n cyflawni uwch eu gallu. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw targedau ar gyfer y disgyblion hyn bob amser yn ddigon penodol nac uchelgeisiol i'w galluogi i wneud cynnydd cystal ag y gallent.

Mae gan yr ychydig iawn o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau dysgu unigol addas ac mae eu targedau'n benodol ac yn fesuradwy. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill er mwyn derbyn cyngor i'w galluogi i roi cymorth effeithiol i'r disgyblion mewn meysydd arbenigol. Mae'r ofalaeth a chynhaliaeth gynhwysfawr yn helpu'r disgyblion i ymgysylltu'n dda iawn â'u dysgu.

Mae'r staff yn dechrau rhoi pwyslais cadarn ar ddatblygu gwerthoedd a mynd i'r afael ag anghenion emosiynol a chymdeithasol y disgyblion. Ers sefydlu'r egwyddor o 'ogof synhwyrau', mae aelodau staff yn cynnig sesiynau galw heibio sy'n cael effaith lwyddiannus ar godi hyder y disgyblion ac yn eu helpu i ddelio'n dda â heriau bywyd o ddydd i ddydd. Cynigir cyfleoedd rheolaidd i ran fwyaf y disgyblion fyfyrio ar agweddau moesol drwy sesiynau cylch ac mewn gwersi perthnasol. Er enghraifft, mae'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn trafod trychineb Tryweryn a'i effaith ar les y bobl leol. Mae rhai o'r disgyblion hŷn yn defnyddio eu profiadau personol fel arf i gynorthwyo disgyblion eraill yn ystod yr amseroedd hyn yn dda.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni, gyda'r holl aelodau staff yn hybu diwylliant agored a chydweithredol, sy'n llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth fuddiol. Mae trefniadau llwyddiannus yn cynnwys rhannu taflenni i esbonio'r thema dymhorol ynghyd â gwaith y dosbarth iddynt, bod yn gyfleus i sgwrsio â rhieni ar safle'r ysgol yn ddyddiol a rhannu gwybodaeth gyffredinol gyda nhw yn rheolaidd trwy gyfryngau cymdeithasol.

Trwy nifer o weithgareddau allgyrsiol a chwricwlaidd, mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Hyrwyddir agweddau ysbrydol y disgyblion yn effeithiol trwy gyfnodau o gyd-addoli rheolaidd ynghyd ag ymweliadau cyson gan arweinwyr crefyddol i'r ysgol a chyfraniad y disgyblion i wasanaethau yn y capel lleol. Mae'r ysgol yn datblygu empathi'r disgyblion tuag at eraill yn addas trwy gefnogi elusennau fel Plant Mewn Angen a thrwy gyfrannu at fanc bwyd y cynhaeaf. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd a ddarperir i ddisgyblion ddysgu am arferion, crefyddau a diwylliannau pobl mewn gwledydd eraill.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn datblygu traddodiad sy'n sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn cyngherddau, canu yng nghôr yr ysgol ac i gystadlu yn yr Eisteddfod leol a'r Urdd. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hyder disgyblion. Mae'r staff yn cynllunio ystod bwrpasol o weithgareddau diddorol sy'n datblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant Cymru. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am artistiaid a chaneuon cyfoes o Gymru, ac mae ymweliadau addysgol i Efailwen, ardal Merched Beca, yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o hanes Cymru yn effeithiol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella

Mae'r pennaeth gweithredol yn gweithio'n gydwybodol ar ddatblygu arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol yn yr amser sydd ganddo yn yr ysgol bob wythnos. Yn y cyfnod byr ers ei benodiad, mae wedi dechrau sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n seiliedig ar ymrwymiad i sicrhau lles a chynnydd academaidd da'r holl ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael digon o amser i wreiddio a chael effaith arwyddocaol.

Mae cyfathrebu clir a llwyddiannus yn bodoli rhwng staff o fewn yr ysgol ac maent yn cael eu hysbysu'n rheolaidd am ddatblygiadau. Mae’r staff yn dechrau cydweithio’n agos fel tîm ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod cynnydd a chynllunio ar y cyd. Mae’r ysgol yn dechrau datblygu’n gymuned ddysgu briodol. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn dechrau cyfrannu’n effeithiol at ddatblygiad proffesiynol holl staff yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr iddynt wella’u medrau a rhannu arferion da ymhlith ei gilydd a chydag ysgolion eraill. Yn ddiweddar, sefydlodd yr ysgol gysylltiad ag ysgol debyg o fewn yr awdurdod lleol i weithio ar gynlluniau cwricwlaidd ac ar ddarpariaeth allanol y cyfnod sylfaen. Mae’r ffocws newydd hwn ar ddysgu proffesiynol yn dechrau gwella ansawdd yr addysgu ond nid yw eto’n gyson ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau hunanwerthuso addas, gan gynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddi data. Mae’r gweithdrefnau hyn wedi cryfhau dealltwriaeth y staff yn briodol o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w datblygu. Mae cyswllt buddiol yn bodoli rhwng deilliannau'r gweithdrefnau hunanwerthuso a'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu. Yn ddiweddar, mae’r staff wedi dechrau monitro prif flaenoriaethau’r cynllun er mwyn mesur llwyddiannau’r gweithgareddau. Er enghraifft, mae’r ysgol wedi mynd i’r afael â gwella presenoldeb disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes gan y gweithdrefnau hyn ddigon o ffocws ar arfarnu safonau disgyblion. O ganlyniad, nid yw’r arweinwyr wedi adnabod ychydig o feysydd pwysig sydd angen eu gwella, fel y diffyg her yn yr addysgu.

Mae’r ysgol yn ymateb yn briodol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae staff wedi dechrau cynllunio ar gyfer y cwricwlwm i Gymru a sefydlu’r Siarter Iaith i geisio codi safonau llafar Cymraeg y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol wedi cynllunio ar gyfer cyflwyno’r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn ddigon manwl dros amser.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i’r ysgol. Maent yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn briodol. Maent yn ymweld â’r ysgol ac wedi dechrau ar y gwaith o ddod i adnabod cyraeddiadau disgyblion a gweithdrefnau’r ysgol, ond nid ydynt yn dwyn yr ysgol i gyfri am safonau a chyrhaeddiad y disgyblion yn ddigon cyson. Ar hyn o bryd, cyfyng yw eu rôl wrth osod cyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae’r staff wedi ei staffio’n bwrpasol a gwneir defnydd effeithiol o arbenigedd unigolion i gyfoethogi profiadau disgyblion. Er enghraifft, maent yn defnyddio arbenigwr i gynnig cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau celf a pherfformio. Mae’r ardal ddysgu allanol yn addas ac yn hybu’r dysgu’n briodol. Mae'r pennaeth, gyda chymorth y corff llywodraethol, yn rheoli cyllideb yr ysgol yn effeithiol. Mae arweinwyr yn targedu cyllid yn dda i ddiwallu anghenion disgyblion ac i gefnogi blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2019